

Cywair - Bywiog, Erfyniol, Dwys ac ymlaen. (Efallai mai 'nodwed' yn hytrach na 'cywair' a fyddai'n gair ni, rhag cymysgu efo 'cyweirnod'.) Nodir yr 'Awdwr' a'r cynganeddwr, lle mae galw am hynny. Yn aml, Ieuan ei hun yw hwnnw.

Yn dilyn ceir 'Mynegai Gwyddorol' sy'n rhestru'r tonau yn ôl yr wyddor. Yn olaf, y brif adran, y tonau eu hunain, 220 ohonynt, cyn cael 'Attodiad' sy'n cynnwys 21 o donau. Yn yr adran hon fe geir sylwadau a geiriau gyda rhai o'r tonau.

Mae'n ddiddorol sylwi ar rai o'r geiriau. Rhif 3 er enghraifft, 'Ein' Feste Burg', ('Ein Cadarn Dŵr' yn ein llyfrau ni.) Rhoddir y dyddiad 1529 ar y gwaith, dwy flynedd ar bymtheg cyn marw'r awdur, Martin Luther. Cynhwysir pedwar pennill o waith Luther, yn yr Almaeneg gwreiddiol, gyda chyfieithiad gan Dr Lewis Edwards, Y Bala. Yn y llyfrau diweddar, gwelir peth amrywiaeth yn y geiriau Cymraeg, a sylwais ar un yn arbennig. Fel hyn y mae llinell gyntaf yr ail bennill yn y *Llyfr Tonau*:

Gwan lewyrch ddaw o allu dyn;
Mewn siomiant blin mae'n diffodd...

Sôn y mae'r geiriau am oleuni (llewyrch) yn diffodd. Mae *Hymnau a Thonau* y Methodistaidd Calffinaidd, 1897, yn dilyn yr un geiriad yn union, ond erbyn 1929 mae llyfr y ddau Gyfundeb Methodistaidd wedi newid y llinell gyntaf, a dyma a geir:

Ni ellir dim o allu dyn;
Mewn siomiant blin mae'n diffodd...

Hen ddadl yw honno ynglŷn â 'golygu' geiriau, a gwyddom nad gwelliant yw hynny bob amser. A yw'r newid hwn yn welliant? Mae rhai yn barod i ddweud bod gallu dyn yn diffodd o dro i dro, tra bod eraill yn dal mai dirywio, pallu neu ffaelu y mae'r gallu hwnnw.

Ond does dim amheuaeth nad yw llewyrch yn diffodd, sy'n arwain dyn i feddwl bod y fersiwn cyntaf yn gyfoethocach. Roedd y Crynwyr yn rhoi pwys mawr ar y Goleuni Mewnol. 'Dyna ganwyll yn dechreu goleuo' meddai Colomen Morgan Llwyd, 'ni ddiffydd moni'. Dyna farn y Golomen, ond tybed na chytunai hithau y daw cysgodion i dywyllu'r Goleuni hwnnw? Gellir galw ar Seimon Pedr yn dyst o hynny; gwyddai ef drwy brofiad chwerw. Ond efallai bod rhesymau diwinyddol dilys dros

fabwysiadu'r ail eiriad, a gwelaf i lyfrau emynau diweddar ddilyn llyfr 1929 y Methodistaidd.

Tôn arall y ceir geiriau gyda hi yw Rhif 4: 'Wachet Auf! Ruft Uns:' a briodolir i *Freudenspiegel* Nicolai, 1599. Un pennill yn yr iaith Almaeneg a geir yma, gyda chyfieithiad gan Ieuan Gwyllt, 'Clywch, deffrowch! mae llef yn galw'. Cynhwysir y dôn yn *Llyfr Hymnau a Thonau* 1897, ond gyda thri phennill Cymraeg o waith Ieuan Gwyllt, a oedd, fel y cofiwn, yn un o Olygyddion y llyfr.

Rhaid rhoi sylw i un arall, sef Rhif 5: 'Wie Schon Leuchet' o gasgliad Nicolai. Un pennill yma eto, gyda chyfieithiad Ieuan Gwyllt, 'Mor ddysglaer ydyw'r Seren Ddydd', a hon hefyd yn llyfr 1897. (Ac fel mesur da, rhoddodd Ieuan ei Raglith i'r *Llyfr Tonau* yn llyfr newydd y Calffinaid!)

Mae'n dda cydnabod y gwreiddiol, wrth gwrs, ond eto mae rhywun yn dyfalu faint o argraff a wnaeth y geiriau Almaeneg ar saint y blychau sgwâr. Ond chwarae teg i'r Golygydd. Pam na ddylem chwilio ym mhob cwr am y gorau, cyn belled â'n bod ni'n dal at ein gwreiddiau ein hunain, a phheidio efelychu Samson!

Do, fe bwysodd Ieuan Gwyllt yn drwm ar gerddoriaeth yr Almaen, ond mae'n canmol ei hun ei fod, yn ogystal, wedi gwneud defnydd o 'alawon Cymreig'. Casglodd nifer helaeth, meddai, ond ei gwyn yw iddo gael anhawster i gysoni'r amrywiol ddulliau o'u canu. Wel, dyna natur alawon gwerin. Mae amrywiaeth o ardal i ardal, nid yn unig yn y dull o ganu, ond yn y geiriau hefyd, a hyn yn ychwanegu, yn sicr, at gyfoeth ein traddodiad. Mae arbenigwyr wedi dangos hyn i ni, o ddyddiau Dr J. Lloyd Williams hyd at Dr Meredydd Evans yn ein dyddiau ni.

Canlyniad y broblem a'i wynebai oedd fod y Golygydd wedi gorfod 'addasu' yr alawon, a gellir dadlau iddo fod mor drwyadl nes eu gwneud yn debycach i goralau nag i alawon gwerin. Ond gellir gofyn, at hynny, ai alawon gwerin yw pob un o'r rhai a nodir felly ganddo ef. Peidiwn â'i feio. Mae rhai ar ei ôl ef wedi cael yr un drafferth. Ystyriwn dair o 'alawon gwerin' Ieuan Gwyllt.

94 Bangor: Ond yn *Caneuon Ffydd*, fe'i priodolir i William Tans'ur, 1735.

109 Meirionydd: William Lloyd a'i cyfansoddodd, yn ôl C.Ff.

135 Gwladys: Priodolir hon eto i Tans'ur yn C.Ff.

Mae 'Gwladys' yn enghraifft o'r anhawster a geir wrth geisio olrhain y ffynonellau. Mae *Llyfr Tonau*'r Methodistaidd, 1929, yn dal i'w galw yn 'alaw werin', ac efallai nad oedd Ieuan Gwyllt yn rhy sicr o'i bethau, chwaith, oherwydd mae ganddo droed-nodyn wrth y dôn ym mhrif adran ei lyfr, yn cyfeirio at Rhif 19 (Mansfield) yn yr *Atodiad*, a honno 'Allan o Tansur'. Mae'r ddwy dôn mor debyg i'w gilydd â dau efaill!

Fel y mae geiriau efo rhai o'r tonau Almaenig, y mae Ieuan Gwyllt wedi rhoi geiriau hefyd gyda'r 'alawon'. Un enghraifft yw 'Llanarmon' (75a). Gellir tybio mai geiriau gwreiddiol yw 'Mi fûm wrth ddrws uffern yn curo/Gan geisio cael myned i mewn.' Gresyn na chwaisom enw'r awdur. Tybed a oes yma adlais o Eheddydd Iâl? Mynd i chwilio am loches wrth ddrws y Gyfraith a wnaeth yntau pan dduodd y nefoedd.

Mae geiriau diddorol gyda'r dôn 'Edeyrn':

SWN Y JUWBILI:

GANIADAU Y DIWYGIAD.

Y PAROH. JOHN ROBERTS (Ieuan Gwyllt).

WREXHAM:
CYHOEDDEDDIG GAN HUGHES & SON.

Does neb uwch ei radd
A'r person a gadd
Ar groesbren ei ladd am ddyled;
A myrdd yn y man
O'r dyfnder i'r lan,
I'w gysgod dan riddfan a red.

Gwelwyd salach prydyddiaeth mewn llawer llyfr emynau! Difyr yw sylwi ar aceniad gair olaf y drydedd linell, a chofio rhai o'r 'hen bobol' yn ynganu'r gair yn union felly, wrth sôn hwyrach, am 'hwn-a-hwn wedi mynd i ddy-lêd'.

Hyd y gwn i, ni welwyd y geiriau na'r tonau hyn mewn llyfrau diweddarach. A all rhywun fy ngoleuo?

* * *

Mae'r cwestiwn yn aros, beth a symbylodd Ieuan Gwyllt i weithio mor ddygn ar ei lyfr? Sêl dros gerddoriaeth, efallai; awydd i'r 'meddwl Cymreig sefydlu ei annibyniaeth'. A oedd symbyliad crefyddol i'w ymdrechion?

Rhaid edrych am yr ateb yn ei Raglith, a ddyddiwyd o Aberdar, Ebrill 30, 1859, llith sy'n ymestyn dros un ar ddeg o dudalennau o brint clos. Doedd pobl Oes Victoria ddim yn credu mewn cynildeb ymadrodd!

Yno, dywed y bu llawer ymgais dros ddeg ar hugain a deugain o flynyddoedd i ddiwygio canu cynulleidfaoel Cymru, ond erys y diffygion, meddai, a chrefydd yn dioddef oherwydd hynny. Nid nad yw'n gwerthfawrogi ymdrechion eraill, wrth gwrs, ac nid yw yntau'n honni perffeithrwydd. Eto, barna fod esgeulso'r gwaith pwysig o ganu mawl, gan wneud hynny'n raenus a gweddus, yn llesteirio gwir addoliad. Mae'n cwyno mai dim ond mewn ambell fan yn unig y cynhelir cyfarfodydd canu, '...ac na ddaw iddynt ond plant a phobl ieuainc.' (Daeth tro ar fydd!) Gellir synhwyro, rhywfodd, ei fod yn tybio bod y saint yn ystyried cyfarfodydd o'r fath fel ffurf ar adloniant yn unig, tra y barnai ef ei bod yn hanfodol dysgu cerddoriaeth cyn y gellid canu mawl yn deilwng.

Â yn ei flaen i ddweud mai cyfyng, yn fynych, yw'r dewis o'r hyn a genir, '...yn aml, dim ond ychydig o benillion hen-arferedig, a hynny ar gerddoriaeth sy'n waradwyddus o dlawd.' Yna, ar drydedd dudalen ei lith, mae'n crisialu ei amcan yn cyhoeddi'r llyfr:

Fy amcan arbennig yn ymgymryd a'r Gwaith hwn oedd, cynysgaeddu y Cymry a Chasgliad, nid yn unig o Donau da, ond o'r Tonau goreu, hyd y gallwn farnu, a fedd y byd, at wasanaeth cynulleidfaoel...

(Parhad ar dudalen 14)

Y GWLADGARWR;

CYLCHGRAWN GWYBODAETH

YSGRYTHYROL, HANESIOL, AC AMRYWIAETHOL;

YD CYFFWR

BYWGRAFFADAU, TRAEITHODAU, EOLURIAIDAU, GOHERLIAETHAU,
BARDDONIAETHAU, HANESIAETHAU, &c. &c.

AM Y FLWYDDYN MDCCCXL.

FFENDEFIGION, BONEBDDIGION, FARCHEDIGION.

YNDYD & LLEIDON

O WARSOL HWADAU, YD HOUTWRO & LLODOL.

CYFEOL VIII.

"CYFONNEN YD CYDD"

"CYFONNEN YD CYDD"

CARLELLON;

CYHOEDDID AC ARWYNTID DAN EDWARD PARRY, LLYFRWRITWR;
AC YD GALLWYD DAN H. HUGHES, LLYFRWRITWR, LONDON;
& OGAN YD HOLL CYFONNEN YD HUGHES & SON, CYDD.

1840.

Y Gwladgarwr dan olygyddiaeth Ieuan Gwyllt.